# Archwilio lleoliadau yn y cyfnod cyn cynhyrchu

## Trosolwg

Mae'r safon hwn yn ymwneud â'r gwaith rhagarweiniol ar gyfer archwilio lleoliadau yn ystod y cyfnod cyn cynhyrchu. Mae'n ymwneud â mynychu cyfarfodydd cynhyrchu, ymweld â lleoliadau, cynhyrchu gwybodaeth ar gyfer isgontractwyr, a chysylltu â pherchnogion safleoedd.

Mae'n cynnwys cynghori cydweithwyr cynhyrchu o unrhyw arferion gweithio arbennig ac unrhyw ganiatâd y gallai fod angen ei gael, yn ogystal â chynhyrchu asesiadau risg.

Mae'r safon hwn ar gyfer unrhyw un sydd angen archwilio lleoliadau yn y cyfnod cyn cynhyrchu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1 Cyfrannu at gyfarfodydd cyn cynhyrchu ar adegau addas

2 Cynhyrchu asesiadau risg ar gyfer yr holl offer perthnasol ar gyfer pob lleoliad

3 Amcanu a gwerthuso gofynion ar gyfer eich maes cyfrifoldeb chi yn erbyn anghenion cynhyrchu

4 Manylu ar amgylchiadau pob lleoliad a gofynion arbennig ar gyfer cynyrchiadau mewn dogfennau addas

5 Gwirio fod dogfennau a gwblhawyd yn gryno a darllenadwy

6 Cynghori'r cynhyrchwyr ar adegau addas am unrhyw agwedd ar leoliadau a allai achosi problemau i offer, criw cynhyrchu neu unrhyw drydydd parti

7 Cynghori'r cynhyrchwyr am unrhyw fesurau diogelwch neu sicrwydd arbennig a fydd yn angenrheidiol wrth i offer gael ei weithredu neu'i adael heb oruchwyliaeth

8 Rhoi gwybod i gynhyrchwyr a chyflenwyr am unrhyw newidiadau cyn gynted ag y dônt yn amlwg

9 Cael cyngor arbenigol gan ffynonellau dibynadwy yn ôl y galw.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1 Deddfwriaeth berthnasol, canllawiau ac arfer orau'r diwydiant

2 Sut i ddehongli'r briff cynhyrchu yn ofynion technegol

3 Sut i gynghori ar addasrwydd lleoliadau

4 Sut i ddehongli a gweithredu deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac arferion gweithio'r diwydiant sy'n berthnasol i'r gwaith

5 Manteision gwaith tîm a sut i gyfathrebu ag eraill

6 Eich cyfrifoldeb i berchnogion offer, personél cynhyrchu, a pherchnogion lleoliadau

7 Sut i asesu diogelwch a sicrwydd offer pan fyddan nhw'n cael eu gweithio neu wedi'u gadael heb oruchwyliaeth

8 Fformatau addas ar gyfer cofnodion

9 Pryd a ble i gael gafael ar gyngor arbenigol

10 Sut i asesu anghenion mynediad ar gyfer trafnidiaeth drom

Archwilio lleoliadau yn y cyfnod cyn cynhyrchu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Screen Skills (gynt Creative Skillset) |
| **RCU gwreiddiol** | SKSGC3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithredwr Craen (Ffilm a theledu), Grip, Grip dan hyfforddiant, Technegydd Craen (Ffilm a theledu) |
| **Cyfres/Set** | Grips a thechnegwyr craeniau |
| **Geiriau Allweddol** | Grip, Recces, Lleoliadau, Iechyd a diogelwch, Asesiad rig |